Llinell Amser Dyffryn Tywi

Yma y dewch chi o hyd i:

Archaeoleg a Hanes Yn Nyffryn Tywi
Oes Efydd (2200CC-700CC)
Yr Oes Haearn (700CC- OC70)
Rhufeinig (OC 70-410)
Canoloesol Cynnar (Yr Oesoedd Tywyll Neu "Oes y Seintiau") OC 410-1066
Canoloesol (1066-1536)
Ôl-ganoloesol (1536-1899)
Yr 20fed Ganrif
Cyfeiriadau

Archaeoleg a Hanes yn Nyffryn Tywi

Mae'r cyfnod amser o weithgarwch dynol o fewn yr ardal dan astudiaeth yn Nyffryn Tywi yn ymestyn yn ôl i gyn diwedd yr Oes Iâ diwethaf, pan fu pobl Paleolithig yn hela ceirw ar dirlun oedd yn debyg i *dwndra*. Fe gerfiwyd y dyffryn wrth i'r rhewlifoedd gilio, ac wrth i'r hinsawdd dwymo, dychwelodd coedwigoedd a phobol, yn y cyfnod y cyfeirir ato fel yr un Mesolithig. Ffermio oedd yn nodweddu'r cyfnod Neolithig, tua 6000 o flynyddoedd yn ôl. Cofnodwyd safle mawr Neolithig yng Nghwmifor, a oedd yn cynnwys nifer o byllau a thyllau pyst, gyda darganfyddiadau o esgyrn wedi eu llosgi, yn ogystal â fflintiau a siarcol. Daethpwyd o hyd i fwyell garreg gaboledig yng Nghastell Dinefwr yn 1876, ac un arall yn 1913 mewn cae islaw'r dref a elwir yn Gae Crug Mawr, ar ymyl ble mae'r Afon Tywi yn gorlifo. Yn y cyfnod hwn gafodd yr henebion archaeolegol cynharaf eu hadeiladu, gan gynnwys beddrod siambr ger Bethlehem, Llangadog.

Beddrod Siambr Neolithig ger Bethlehem

Yr Oes Efydd (2200CC-700CC)

Mae tystiolaeth posibl o weithgarwch dynol yn ystod y cyfnod Oes Efydd ar gael yn ffurf y twmpath Cae Crug Mawr. Credir ei fod yn *grug crwn* o'r Oes Efydd, neu domen gladdu.

Roedd pobl Yr Oes Efydd yng Nghymru yn creu safleoedd claddu ar ffurf carneddau bryn a chrugiau, ble mae'r gweddillion amlosgedig y meirw yn cael eu claddu, fel arfer, o fewn yrnau ceramig. Ceir enghreifftiau da o'r rhain yn Nhrichrug a'r Tair Garnedd Uchaf ac Isaf yn Llandeilo. Daethpwyd o hyd i ben morthwyl posib o'r Oes Efydd, a wnaed o gerrig cwartsit, mewn pwll dan Gastell Dinefwr yn 1918. Erbyn heddiw mae'n cael ei gadw yn Amgueddfa Caerfyrddin.

Crug crwn o'r Oes Efydd

Yr Oes Haearn (700CC-OC 70)

Mae'r cyfnod hwn yn cael ei nodi fel Oed y llwythau Celtaidd a grwpiau o ryfelwyr a fabwysiadodd ryfela fel ffordd o fyw. Cefnogwyd y penaethiaid a'r rhyfelwyr gan boblogaeth ffermio, a oedd, yn ôl pob tebyg, yn byw mewn ffermydd gwasgaredig. Mae'r fryngaer o'r Oes Haearn ar Garn Goch yn dominyddu'r ffin rhwng ardaloedd llwythi'r Dematae a'r Silwriaid. I'r gogledd o'r ddwy ardal roedd y llwyth mwyaf, ac, o bosib yr un fwyaf niferus, sef yr Ordovices.

Bryngaerau Garn Goch

Rhufeiniaid (OC 70-410)

Yn gyffredinol, mae'n cael ei dderbyn, bod concwest Rufeinig Gorllewin Cymru wedi digwydd fel rhan o ymgyrchoedd Fflafaidd o 74 OC a 75. Dileuwyd y presenoldeb milwrol o gwmpas AD120 (Davies, 2000).

Adeiladwyd ffyrdd i alluogi milwyr a chyflenwadau milwrol symud yn gyflym rhwng ceyrydd sefydledig, a dwy gaer fawr, un yn gorwedd yn rhannol dros y llall, a adeiladwyd ym Mharc Dinefwr. Daethpwyd o hyd i ddarganfyddiadau Rhufeinig ar draws Dyffryn Tywi, ond, ac eithrio o bosib Llys Brychan ger Bethlehem, does dim llawer o filâu Rhufeinig wedi cael eu dadorchuddio.

Adluniad o Gaer Rhufeinig Llandeilo gan Neil Ludlow

Canoloesol Cynnar (Yr Oesoedd Tywyll neu "Oes y Seintiau") OC 410 -1066

Rhannwyd Gorllewin Cymru i deyrnasoedd bach, neu "*wledydd*". Roedd Ystrad Tywi yn un o'r *gwledydd* yma, gyda chanolfan gwleidyddol posib yn Ninefwr. O fewn pob *gwlad* roedd stadau llai oedd yn cael eu galw yn *faenorau*, a grëwyd ar gyfer gweinyddu'r ochr economaidd a gwleidyddol. Rhannwyd bob un o'r maenorau hyn ymhellach i *drefgorddau* neu *drefi*, a oedd yn ardaloedd ble'r oedd mwyafrif o'r boblogaeth yn byw, a hynny mewn ffermydd gwasgaredig. Am resymau amddiffynnol fe wnaeth cyrchoedd y Llychlynwyr rhwng y 9fed a'r 11eg ganrif brysuro creu cysylltiadau agos gwleidyddol gyda Lloegr, ac yn y broses dod â'r eglwys Geltaidd yn fwy amlwg. Mae Llangadog yn enghraifft dda o anheddiad eglwysig cyn - Concwest o lannau canoloesol, neu sustemau caeau rheiddiol.

Canoloesol (1066 - 1536)

Roedd Dyffryn Tywi ar reng flaen y brwydro am bŵer rhwng y tywysogion Cymraeg a'r goresgynwyr Eingl-Normanaidd, gyda safleoedd brwydro canoloesol posib wedi eu lleoli a'u hadnabod gydag enwau fel 'Rhyd-y-Saeson' ar bwys Llangadog. Adeiladwyd y cestyll Cymreig cyntaf yn gynnar yn y 12fed ganrif, ac fe dyfodd *trefi,* neu *faerdrefi* o amgylch y llys ym mhob cwmwd, fel Dryslwyn a Dinefwr, gan arwain at dwf masnach. Yn anochel, wnaeth y rhannu cyson o diroedd etifeddol arwain at barseli llai o dir, a 'r rhain wedi eu gwasgaru. Fe gafodd cyfraith ei basio er mwyn caniatáu'r prynu a'r gwerthu o'r tiroedd hyn. Erbyn y cyfnod canoloesol diweddarach roedd unigolion cyfoethog yn gallu prynu ystadau mawr, a fyddai wedyn yn cael eu hisrannu yn ffermydd ar gyfer tenantiaid.

Dinefwr

Ôl-ganoloesol

16eg a'r 17eg Ganrif

Dim ond pedair tref sydd yn cael eu darlunio yn Ninefwr ar "*Fap o Sir Gaerfyrddin*", gan Christopher Saxton a gynhyrchwyd yn 1578: Llandeilo, Llanymddyfri, Llangadog a Newton, ac eglwysi plwyf yn Llangathen, Llanfihangel Aberbythych a Llandyfeisant. Yn dilyn y Deddfau Uno (1536-1543) a Diddymiad y Mynachlogydd (1538), roedd y boneddigion yn gallu prynu tir ac yna creu ystadau mawr, gan gynnwys y *Rices* yn Ninefwr, y *Dyers* yn Aberglasne a'r *Jonesiaid* yn Abermarlais. Ym 1689, gyda dyfodiad Deddf y Goddefiad, nid oedd hi bellach yn drosedd i beidio â chydymffurfio â'r eglwys sefydledig. Adeiladwyd y capeli cyntaf yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

18fed Ganrif

Ym 1763 anfonwyd deiseb i Dŷ'r Cyffredin i gyflwyno Mesur i drwsio'r *Ffordd Fawr* - ble mae'r A40 yn dilyn, yn bennaf, heddiw. Roedd rhai ymddiriedolaethau yn codi tollau enfawr i ddefnyddio'r ffyrdd hyn, ac nid oedd yr arian yn cael ei ddefnyddio i atgyweirio'r ffyrdd. Roedd y baich ariannol ychwanegol a osodwyd ar y cymunedau ffermio tlawd wedi arwain at ffurfio gangiau, a bedyddiwyd yn *Ferched Beca*, a hyn er mwyn dinistrio'r tollbyrth.

Rhwng yr 18fed a'r 19eg ganrif roedd porthmona da byw yn rhan bwysig o economi Cymru, gyda'r porthmyn yn cymryd da byw o Orllewin Cymru i'r dinasoedd Saesneg, yn enwedig Llundain. Arweiniodd y twf yn y fasnach hon gyda Llundain at sefydlu nifer o fanciau'r Porthmyn: yn Llanymddyfri, Banc yr Eidion Du, a sefydlwyd yn 1799, gyda'r ych du ar ei bapurau arian yn symboleiddio ei chysylltiadau â'r Porthmyn. Roedd y banc cyntaf i agor yn Llandeilo yn rhif 1, Bank Terrace, yn 1842.



Porthmona'r gwartheg

Y 19eg ganrif gynnar

Datblygiad mewn adeiladau diwydiannol a oedd yn gysylltiedig â'r economi amaethyddol, fel melinau gwlân, tanerdai a melinau (*Hughes, 2006*) yn ogystal â safleoedd chwareli ar raddfa fach a oedd yn darparu deunydd ar gyfer adeiladu lleol yn yr ardal.

Wnaeth Llandeilo ddatblygu fel tref farchnad. Adeiladwyd y bont garreg bresennol dros y Tywi yn 1848 ac fe adeiladwyd yr Ysgol Genedlaethol yn ystod yr 1850au.

Yn y 19eg Ganrif hwyr

Yn 1858 agorwyd prif reilffordd Gorllewin Cymru, yr *LNWR*, a'i galw 'Vale of Towy Line', gan y Llanelly Railway and Dock Company.

1851 – roedd bron i 80% o addolwyr yng Nghymru yn anghydffurfwyr (cyfrifiad crefyddol)

Yr 20fed Ganrif

Yn 1914, ar ddechrau'r 20fed ganrif wnaeth Deddf Eglwys Cymru ganiatáu creu'r Eglwys yng Nghymru.

Wnaeth Llandeilo gyrraedd ei hanterth fel tref farchnad. Agorwyd banciau masnachol newydd, ac roedd pob un o'r prif enwadau anghydffurfiol wedi adeiladu neu ailadeiladu capeli mawr; codwyd gorsaf heddlu; ysgol a swyddfa bost i wasanaethu pobl y dref.

Wnaeth fusnesau ffynnu yn ystod y 1930au, gan gynnwys siopau a oedd yn gwerthu nwyddau trydanol a phlymio, yn ogystal â Chymdeithas y *Co-operative,* Rhydaman.

Y Rhyfel Byd Cyntaf

Yn ystod y rhyfel byd cyntaf aeth nifer o ddynion Llandeilo i ffwrdd i ymladd yn y ffosydd, rhai byth i ddychwelyd. Codwyd cofeb ryfel ar y wal ddwyreiniol yng nghangell Eglwys Sant Teilo.

Llun drwy garedigrwydd Miss Aileen Stephens

Sarjent WO Stephens anafwyd ym mrwydr Loos ym 1915

Yr Ail Ryfel Byd

Roedd Ysbyty Milwrol Byddin Prydain wedi ei leoli yn *Newton House*. Yn ddiweddarach yn ystod y rhyfel, daeth yn ysbyty i Fyddin America, ynghyd â grŵp o gytiau Nissen ar y lawnt y tu fas i'r plasty. Ar ôl "*D-Day*", defnyddiwyd y cytiau ar gyfer gwersyll i'r Carcharorion Rhyfel, a fu'n cadw swyddogion byddin yr Almaen. Roedd gan yr Americanwyr, hefyd, wersyll wedi ei leoli yn yr hen Neuadd Eglwys yn Ninefwr, gyda chegin filwrol a safle mawr ar gyfer cadw petrol yn y meysydd ble saif *Dynevor Avenue* heddiw. Roedd gan *Ferched Byddin y Tir* wersyll ger y White Hart, a gafodd ei droi'n dai dros dro i bobl ddigartref ar ôl y rhyfel, yn yr un modd a'r cytiau Nissen y tu fas i *Newton House* - " *Tre'r Tun*."

Croesawyd nifer o blant oedd yn ffoaduriaid mewn i ardal Dyffryn Tywi.

Llun drwy garedigrwydd Gweneira Davies ac David Tom Rees

Am fwy o wybodaeth am yr Ail Ryfel Byd yn Sir Gaerfyrddin, cysylltwch ag Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn Abergwili. Ebost: *museums@carmarthenshire.gov.uk*

Cyfeiriadau:

Rees S., 1992, A Guide to Ancient and Historic Wales, Dyfed.
Ludlow N., 2004, Early Medieval Ecclesiastical Sites Project (Report No.2004/2)

Murphy,K & Ludlow,N 2000 Carmarthenshire Historic Landscape Characterisation - Volume 1
Murphy F, 2008, Scheduling Enhancement Project: Roman non-military sites, Dyfed.
Sambrook P., 2003, Deserted Rural Settlements in Southwest Wales 2002-3 Project.
Sambrook R.P. & Page N.A., 1995, The Historic Settlements of Dinefwr, DAT.
RCAHMW database, coflein.gov.uk
Hughes G., 2006, in Day K., Beloved Tywi
Jones F., 1972, 'O Domus Antiqua!', Archaeologia Cambrensis Volume CXXI .
Jones F., 1987, Historic Carmarthenshire Homes and their Families.
Molloy P., 1983, And They Blessed Rebecca
Nicholls H., 2009, Assessment of the Archaeological Potential of Wern Fawr, Carmarthenshire.
Poucher P.& Pyper A., 2007, An Assessment of the Parks and Gardens in the Tywi Valley (PRN 56721)
Sambrook P. & Hall J., 2004, Llandeilo Fawr Heritage Audit.
Sambrook P. & Page N., 1995, The Historic Settlements of Dinefwr.
Whittle E., 2000, The Historic Parks and Gardens of Carmarthenshire
The Carmarthenshire Antiquary Vol 36